
Llongyfarchiadau
HWRE!

Nod y Sesiwn

- Trafod Aseiniad 2
- Arsylwadau
- Y TCA
- Trawsieithu
- Unrhyw gwestiynau?

Aseiniad 2

- Dyddiad Cyflwyno: **Dydd Llun 18fed o Fawrth.**

Neu, yn y ddarlith ar ddydd Mercher y 13eg o Fawrth.

- 3 phecyn o adnoddau:
  - Cynllun gwers- ffocws ar lythrennedd a gwahaniaethu
  - Sampl o adnoddau: PPT, taflenni gwaith, gemau.
  - Gwerthusiad: Ffocws ar lythrennedd y dysgwyr, gwahaniaethu a'ch llythrennedd personol chi.

Arsylwadau a'r TCA

- Cadw ffeil- Sampl o adnoddau sy'n dangos eich bod yn datblygu llythrennedd y dysgwyr yn rheolaidd. Eich adnoddau gorau!

- Rhaid i chi ddangos y ffeil i'r mentor iaith / tiwtor iaith ac unrhyw un fydd yn dod i'ch arsylwi fel rhan o'r Cynllun Gwella neu'r TCA.

Y TCA

TASG 1: Cywiro (20% o farciau'r papur)

Bydd darn tua 150 o eiriau ar y papur, yn cynnwys tua 22 o wallau gramadegol. Bydd disgwyl i hyfforddeion gywiro'r gwallau a nodi'r cywiriadau mewn print trwm.

- Nid yw tynnu sylw at y gwallau'n ddigon.
- Ni roddir unrhyw farciau am wallau sydd heb eu cywiro.
- Nid oes angen esbonio'r rhesymau dros gywiro.
- Ni ddylid aralleirio na newid arddull y darn.
- Bydd Cysill yn canfod rhai o'r gwallau yn unig.
- Gofal – bydd Cysill yn camgywiro rhai pethau.

Meini Prawf Tasg 1

Bydd Cysill yn adnabod 4 gwall, a rhoddir ½ marc yr un am gywiro'r gwallau hyn. Rhoddir 1 marc yr un am gywiro'r 18 gwall ychwanegol (cyfanswm posibl, 20 marc).

TASG 2: Trawsieithu (40% o farciau'r papur)

Bydd angen llunio trawsieithiad o erthygl Saesneg. Mae trawsieithu'n sgil gwahanol iawn i gyfieithu oherwydd bod angen crynhoi'r wybodaeth yn y darn yn ogystal â throsi'r wybodaeth i iaith arall wrth drawsieithu.

- Dim ond prif negeseuon y darn y dylid eu cynnwys.
- Dylai'r trawsieithiad fod tua thraean/chwarter hyd y gwreiddiol.
- Rhaid cynnwys prif neges y darn a'r isbwyntiau pwysicaf.
- Bydd cywirdeb a hyd y trawsieithiad yn cael eu hystyried wrth farcio.

Meini Prawf Tasg 2

Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau canlynol wrth farcio'r dasg:

- cywirdeb a defnyddio arfau iaith gyfrifiadurol e.e. Cysill
- cystrawen a geirfa
- cywair/arddull
- egwyddorion trawsieithu a chadw at ofynion y dasg.

TASG 2: Ysgrifennu Rhydd (40% o farciau'r papur)

Bydd gofyn i hyfforddeion ysgrifennu darn ffeithiol byr, rhwng 280 a 330 o eiriau. Mae'n bosibl y bydd y cwestiwn yn gofyn i ymgeiswyr ystyried eu profiadau yn y byd addysg.

- Nid ysgrifennu stori neu ddarn creadigol yw'r dasg hon.
- Dylid ateb pob agwedd ar y cwestiwn.
- Bydd marciau yn cael eu colli os na fydd yr ateb yn ymdrin â holl elfennau'r cwestiwn.
- Ystyrir cywirdeb a hyd y darn wrth farcio.

Meini Prawf Tasg 3

Bydd yr arholwyr yn ystyried yr elfennau canlynol wrth farcio'r dasg:

- cywirdeb a defnyddio arfau iaith gyfrifiadurol e.e. Cysill
- cystrawen a geirfa
- cywair/arddull
- cadw at ofynion y dasg.

Tasg 1: Cywiro

Treuliwch hyd at 30 munud yn chwilio am y gwallau a chywiro'r darn.
Byddwn yn trafod y gwallau gyda'n gilydd.

YR ATEBION

Roedd y wers yn llwyddiant, at **ei** gilydd. Wedi dweud hynny, gallwn **fod** wedi gwneud rhai pethau'n wahanol:

- Gofynnais i'r disgyblion ~~i~~ (*dileu*) dreulio ugain munud yn ateb y cwestiwn cyntaf. Gweithiodd hyn yn dda ac roedd **y** rhan fwyaf o'r disgyblion yn canolbwyntio. Serch hynny, **mewn** rhai grwpiau/**yn rhai o'r** grwpiau, un neu ddau o unigolion a wnaeth y gwaith i gyd. Felly'r tro nesaf, byddai'n well **taswn i'n /petawn i/pe bawn** i'n awgrymu y dylai pawb weithio mewn parau.

Cafodd y wers ei **ch**yflwyno mewn awr, ond mewn gwirionedd roedd angen **m**wy o amser na hynny gan fod cymaint o waith **i'w** gyflawni. Roedd yr amser **ar ben** mewn **dîm** o dro. **Pan** orffennodd y wers, roedd rhai grwpiau heb gwblhau'r adran yr oedden nhw'n gweithio **arni**.

Cyflwynodd y grwpiau **g**asgliadau **da** a **g**afodd eu canmol gan yr athro dosbarth.

Roedd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn ardderchog:

- **Ar** beth sylwoch chi ~~ar~~ wrth wylio'r fideo?
- **Pa** nodweddion weithiodd **orau**, yn eich barn chi?

Ond **fyddwn** i ddim yn holi'r cwestiwn hwn eto, gan ei **fod** yn rhy anodd:

- Pam **mae'r** meini prawf llwyddiant mor ddefnyddiol?

= hanner marc

= 1 marc

Y Mathau gwahanol o wallau

- Ansoddeiriau
- Sillafu
- Cenedl enwau
- Y cymal enwol
- Berfau- rhedeg y berfau
- Arddodiaid
- Rhagenwau ei / eu
- Treiglo'r gwrthrych
- Geiriau: llynedd, eleni ayyb.

Adolygu ac ymarfer : Sglein ar lein



Adolygu ac ymarfer : Sglein ar lein

- Ansoddeiriau – 6,
- Sillafu – 5, 10,
- Cenedl enwau- 1, 5, 8, 17
- Y cymal enwol- 1
- Berfau- rhedeg y berfau- 6, 1, 3, 2, 16, 19
- Arddodiaid- 1, 3, 6, 10, 17,
- Rhagenwau ei / eu- 5, 8, 13, 17
- Treiglo'r gwrthrych- 17

Adolygu ac ymarfer :Cywirdeb iaith



Sgiliau trawsieithu

Trawsieithu

Beth yw trawsieithu a sut mae ei ddefnyddio?

Y diffiniad symlaf yw sefyllfa lle rydym yn **derbyn gwybodaeth** mewn un iaith ac yn ei **defnyddio** yn y llall e.e.

Darllen yn Saesneg > Ysgrifennu yn Gymraeg;
Gwrando yn Saesneg > Siarad yn Gymraeg

Trawsieithu

Felly, yn syml, **trawsieithu** yw:

- chwilio am y **prif syniadau** mewn darn (e.e. Saesneg)
- cyfleu'r **prif syniadau** hyn yn yr iaith arall (e.e. Cymraeg) gan gadw'r iaith mor syml a dealladwy ag sy'n bosibl

Canllawiau trawsieithu

- **darllen** darn yn sydyn ac yn arwynebol (sgimio) er mwyn cael syniad o'r cynnwys
- **chwilio am y prif bwyntiau** – eu tanlinellu; eu hamlygu (*highlight*); gwneud pwyntiau bwled neu greu map meddwl ohonynt
- gwneud nodiadau **yn Gymraeg heb edrych ar y gwreiddiol** os gallwch chi

Canllawiau trawsieithu

- cyflwyno'r prif bwyntiau yn eich **geiriau eich hun** (**dim cyfieithu** air am air)

- drafft cyntaf

- Cofiwch hefyd:
  - peidio ag ychwanegu eich barn / eich syniadau eich hun
  - dim enghreifftiau, oni bai eu bod yn hanfodol
  - ysgrifennu mewn brawddegau clir

Canllawiau trawsieithu

- ailysgrifennu'r cyfan yn fwy effeithiol gan gofio:

- sicrhau eich bod wedi cynnwys y prif bwyntiau yn eich geiriau eich hun
- crynhoi i tua un rhan o dair
- brawddegau byrion (nid un frawddeg hir)
- peidio ag ailadrodd pwyntiau

Canllawiau trawsieithu

- Cofiwch hefyd roi sylw i gywirdeb iaith :
  - sillafu; geirfa / termau; cenedl enwau
  - gwallau cyffredin
  - treigladau
  - brawddegu'n gywir
  - pwyntiau'n llifo'n naturiol ac yn gydlynnus

- Defnyddiwch Cysgliad

Dilyn trefn y Saesneg – Saesneg yn Gymraeg

Mae'n gwneud y Gymraeg yn aneglur a gwneud i'r brawddegau swnio'n

annaturiol er enghraifft:

Nodwch **yr** ansawdd **o'r** atebion > *Make a note of **the** quality **of the** answers*

- Ysgrifennwch hwn lawr > Ysgrifennwch hwn

Mae angen meddwl beth yn union ydy ystyr y Saesneg a sut buasen ni'n

dweud hyn mewn ffordd glir, syml a naturiol yn Gymraeg.

Goldilocks is a guru

Let me explain why



Oes angen cynnwys Elen Benfelen o gwbl?

Beth yw 'the Goldilocks principle'?

Sut yn y byd ydw i'n mynd i ddweud 'guru' yn Gymraeg?

Rhaid ystyried cwestiynu yn yr un modd ag yr oedd Elen Benfelen yn ystyried ei huwd…

Is-deitlau

Oes angen cynnwys is-deitlau os ydw i'n ailadrodd yr un peth yn y darn ei hun?



Rhai nodiadau

- Gwybod ffaith

- Saesneg:
- it is essential to…
- It is important to

- Adnabod person

- Cymraeg:
- Mae'n hanfodol ystyried
- Mae'n bwysig gweld

Yr Amhersonol

- Cofiwch:
- Dywedodd Kahn fod…
- Dywedwyd yn yr adroddiad bod…

- Dengys Black fod hyn yn digwydd…
- Dangosir y canlyniadau'n glir yn yr adroddiad

Yr Amhersonol

- Cafodd yr adroddiad ei ysgrifennu gan y Pennaeth
- Cafodd yr ysgol ei gwerthu gan y cyngor.
- Cafodd y bwyd ei goginio gan Alun.
- Cafodd yr adroddiad ei ysgrifennu gan Donaldson.

Pwyntiau Bwled

- Y defnydd o bwyntiau bwled- RHAID i'r pwyntiau bwled fod yn **frawddeg llawn**, a rhaid bod **cyflwyniad a chlo** i'r pwyntiau bwled.

- Os ydych yn defnyddio pwyntiau bwled byr sy ddim yn frawddeg lawn bydd yn effeithio yn fawr ar eich marc ar gyfer 'cystrawen' oherwydd bydd dim digon o iaith yno i'r arholwr allu ei asesu'n deg.

- Y peth gorau i'w wneud ydy osgoi y defnydd o bwyntiau bwled!!

Edrych ar gyn-bapur

Oes gennych unrhyw gwestiynau?

Swyddi?